

Llenwi'r ffurflen gais am basbort

Dylech gwblhau'r ffurflen gais yn llawn, gan gynnwys y llofnod yn adran 9 o'r ffurflen, gan ddefnyddio'r enw a fydd gennych ar ôl y seremoni.
Os ydych yn edrych yn wahanol ac na ellir eich adnabod o'r llun yn eich pasbort presennol, bydd angen i'ch cais gael ei gydlofnodi. Dylai'r unigolyn sy'n cydlofnodi eich cais ardystio cefn un (nid y ddau) o'ch lluniau fel a ganlyn:
'Tystiaf fod hwn yn llun cywir o
a fydd, ar ôl priodi/ffurfio partneriaeth sifil, yn'
Llofnodwyd
Enw
Dyddiad.....

Pwyntiau eraill

- Mae'r ffi llawn yn daladwy ar gyfer gwneud cais am basbort wedi'i ôl-ddyddio.
- Os oes gennych basbort dilys ac nad ydych am ei newid am un sy'n dangos eich enw newydd, gallwch barhau i ddefnyddio eich pasbort presennol a mynd â'ch tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil gyda chi pan fyddwch yn teithio. Fodd bynnag, gall rhai gwledydd fynnu bod y manylion ar eich dogfennau teithio yn cyfateb i'r rhai yn eich pasbort. Mae Swyddfa Basbort EM yn eich cynghori i holi swyddfa is-gennad y wlad y byddwch yn teithio iddi cyn trefnu'ch gwyliau.
- Ni fydd rhai gwledydd yn rhoi fisâu ar gyfer pasbortau wedi'u hôl-ddyddio. Dylech holi swyddfa is-gennad y wlad y byddwch yn teithio iddi cyn gwneud cais.
- Os hoffech wneud cais am basbort wedi'i ôl-ddyddio yn eich enw newydd, ond eich bod am barhau i ddefnyddio eich enw cyn priodi at ddibenion proffesiynol, dylech wneud datganiad yn adran 8 o'r ffurflen gais a byddwn yn ychwanegu nodyn at dudalen sylwadau eich pasbort yn dangos eich enw cyn priodi.
- Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig rhiant ar bobl ifanc dan oed sydd ar fin priodi neu ffurfio partneriaeth sifil sy'n gwneud cais am basbortau wedi'u hôl-ddyddio.
- Dim ond y rhai sydd â statws dinesydd Prydeinig, Dinesydd Tiriogaethau Tramor Prydain, Gwladolyn Prydeinig (tramor), Dinesydd Tramor Prydeinig, Deiliad Prydeinig neu Berson o dan Amddiffyniad Prydain cyn priodi sy'n gymwys i gael pasbort Prydeinig. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am ddinasyddiaeth Brydeinig ar wefan Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig yn www.gov.uk.
- Ewch i www.gov.uk am ganllawiau ar sut i wneud cais am basbort a gwybodaeth am ffioedd pasbort.

Manylion cyswllt

Gwefan: www.gov.uk

Llinell Gyngor Pasbortau: 0300 222 0000* (rhwng 8.00am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9.00am a 5.30pm ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus)

Ffôn testun: 0300 222 0222 neu Text Relay ar 18001 0300 222 0000 (i gwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw)

Cyngor ar ffioedd pasbort 0300 222 1999 (24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos)
Ffôn testun ar 0300 330 1111 (i gwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw)

*Codir cyfradd genedlaethol eich darparwr rhwydwaith ar eich galwadau.



BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Arian



PD1W(09.18)



Swyddfa
Basbort EM

Pasbortau i'r rhai sydd newydd briodi a phartneriaid sifil newydd

Cyflwyniad

Os ydych yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil ac yn bwriadu mynd dramor yn syth ar ôl y seremoni, gall Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi roi Pasbort Prydeinig i chi yn eich enw newydd hyd at dri mis cyn y seremoni. Bydd Swyddfa Basbort EM yn canslo eich hen basbort, ac yn ôl-ddyddio eich pasbort newydd yn eich enw newydd, a fydd yn ddilys o ddyddiad eich seremoni. Mae hyn yn golygu na allwch ei ddefnyddio tan ar ôl y seremoni.

Os byddwch yn penderfynu gwneud cais am basbort wedi'i ôl-ddyddio, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Bydd angen i chi anfon eich pasbort presennol ynghyd â'ch ffurflen gais i Swyddfa Basbort EM.
- Bydd eich pasbort presennol yn cael ei ganslo ac ni fyddwch yn gallu ei ddefnyddio i deithio mwyach.
- Bydd eich pasbort newydd yn cael ei ôl-ddyddio ac felly ni fydd yn ddilys tan ar ôl y seremoni.
- Ni fydd rhai gwledydd yn rhoi fisâu ar gyfer pasbortau wedi'u hôl-ddyddio. Dylech holi swyddfa is-gennad y wlad dan sylw.
- Os na chynhelir y seremoni am ryw reswm, ni ellir defnyddio'r pasbort a bydd yn rhaid ei ddychwelyd i Swyddfa Basbort EM. Bydd yn rhaid i chi dalu am basbort newydd yn eich hen enw.

Os byddwch yn penderfynu diwygio eich pasbort cyn y seremoni

Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais safonol am basbort a ffurflen Ôl-ddyddio 2 (PD2W). Gallwch gael y ddwy ffurflen yn un o ganghennau Swyddfa'r Post sy'n cynnig y gwasanaeth Gwirio ac Anfon, drwy ffonio'r Llinell Gyngor Pasbortau a gofyn iddynt anfon un atoch drwy'r post, neu gallwch lawrlwytho ffurflen PD2W o'n gwefan yn www.gov.uk

Cwblhau ffurflen PD2W

Rhaid i chi gwblhau'r ddwy ran o ffurflen PD2W:

Dylai **Rhan 1** o ffurflen PD2W gael ei chwblhau gan yr unigolyn a fydd yn cynnal y seremoni.

Dylai **Rhan 2** o ffurflen PD2W gael ei chwblhau gennych chi fel yr ymgeisydd. Dylech llenwi'r ffurflen hon gan ddefnyddio eich enw a'ch llofnod presennol ac nid eich enw newydd. Dylech hefyd gwblhau'r adran sy'n gofyn am gyfeiriad Swyddfa Basbort EM lle y caiff y cais ei anfon. Defnyddiwch y cyfeiriad ar amlen eich ffurflen gais am basbort. Os ydych yn defnyddio gwasanaeth apwyntiad yn unig, rhowch gyfeiriad y Swyddfa rydych yn ymweld â hi.

PD1W